# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 9 Ionawr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, M.J.G. Morgan a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: S. Ganachandran (Ymgeisydd), S. Kanapathi (Cynrychiolydd yr Ymgeisydd), J. Jones (Awdurdod Cyfrifol, Heddlu De Cymru), Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson (Person Arall), K. Stevens (Person Arall), K. Brook ac Y. Witchell (Swyddogion Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg) ac M. Thomas (Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Craffu, Cyngor Bro Morgannwg).

(a) Cyhoeddiad -

Cyn i fusnes y pwyllgor ddechrau, darllenodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio ar y rhyngrwyd ac y bydd y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wylio yn y dyfodol.”

Dywedodd y swyddog hefyd fod copi o’r weithdrefn ar gyfer y cyfarfod ar gael i’r aelodau etholedig yn y papurau agenda a ddosbarthwyd cyn y cyfarfod.

DS Anfonodd y Cynghorydd M.R. Wilkinson, a oedd i fod yn bresennol yn wreiddiol fel Aelod o’r Is-bwyllgor Trwyddedu, ymddiheuriadau, gyda’r Cynghorydd H.C. Hamilton yn bresennol yn lle.

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD – BOD Y Cynghorydd M.J.G. Morgan gael ei ethol yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Caniatáu Trwydded Safle – 3s Convenience Stores, 2 Evelyn Street, Barry, Cf63 4en –

Croesawodd y cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr is-bwyllgor, a gwahoddodd bawb i gyflwyno eu hunain.

Yna gwahoddodd y cadeirydd Y. Witchell, rheolwr y tîm trwyddedu, i gyflwyno'r adroddiad i'r is-bwyllgor, a dywedodd fod yr adroddiad i ystyried cais o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf") am drwydded safle yn 3S Convenience Stores, 2 Evelyn Street, y Barri.

Roedd papurau'r adroddiad yn cynnwys y broses ymgeisio, copi o'r ffurflen gais, amodau arfaethedig a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru, a rhestr o sylwadau a ddaeth i law'r Cyngor.
Roedd y cais yn gofyn am awdurdodiad ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy o werthu alcohol drwy fanwerthu. Yr oriau y gofynnwyd amdanynt yn wreiddiol fel rhai a ganiateir ar gyfer gwerthu alcohol oedd 6am tan hanner nos bob dydd o'r wythnos i'w yfed oddi ar y safle yn unig, ac ni wnaethpwyd cais am amseroedd ansafonol.

Yn dilyn hynny, bu trafodaethau rhwng yr ymgeisydd a Heddlu De Cymru, awdurdod cyfrifol, ynghylch nifer o amodau ychwanegol a gynigiwyd gan yr awdurdod cyfrifol, a chytunwyd ar y mwyafrif.

Roedd yr amodau cyffredinol (gan gynnwys unrhyw amodau ychwanegol neu ddiwygiedig a gynigiwyd) fel a ganlyn:

- Oriau a ganiateir wedi'u diwygio – gwerthu alcohol i fod rhwng 9am a 10.30pm, o ddydd Llun i ddydd Sul.
- Agor a chau'r adeilad i fod rhwng 7am ac 11pm, o ddydd Llun i ddydd Sul.
- Bydd system teledu cylch cyfyng yn cael ei gosod i safon a gymeradwyir gan Heddlu De Cymru, ac yn cael ei chynnal a'i gweithredu bob amser pan fo'r eiddo ar agor i'r cyhoedd. Rhaid i'r system teledu cylch cyfyng gynnwys pob mynedfa ac allanfa a phob man lle mae alcohol yn cael ei arddangos. Bydd y delweddau'n cael eu cadw am o leiaf 31 diwrnod. Bydd y delweddau'n cael eu cyflwyno i weithiwr heddlu (yn amodol ar ddeddfwriaeth diogelu data) mewn fformat hawdd ei chwarae ar gais pan fydd y safle ar agor i'r cyhoedd ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i hwyluso'r amod hwn.
- Ni chaniateir lleoli unrhyw arddangosiad o alcohol o fewn radiws tri metr i ddrysau prif fynedfa/allanfa'r siop, oni bai ei fod yn cael ei storio y tu ôl i gownter talu â staff.
- Cedwir llyfr digwyddiadau yn y safle a'i gadw ar y safle am gyfnod o 12 mis. Bydd ar gael ar gais i weithiwr heddlu, a bydd yn cofnodi'r canlynol:
  - Pob trosedd a adroddir i'r lleoliad
  - Unrhyw gwynion a dderbynnir (o natur droseddol neu drwyddedu)
  - Unrhyw ddigwyddiadau o anhrefn
  - Unrhyw wrthod gwerthu alcohol
  - Unrhyw ymweliad gan gynrychiolydd awdurdod perthnasol neu aelod o'r gwasanaethau brys
  - Unrhyw fethiannau yn y system teledu cylch cyfyng
- Ni fydd hunanwasanaeth gwirodydd oddieithr cymysgedd gwirodydd.
- Ni fydd unrhyw werthiant cwrw, lager na seidr gyda chynnwys alcohol dros 5.5% alcohol yn ôl cyfaint (ABV). Ni fydd y cyfyngiad hwn yn berthnasol mewn perthynas â chynhyrchion brand arbenigol â phris premiwm – er

enghraifft, cwrw crefft, cynhyrchion arbenigol lleol neu ficro-fragdy, rhoddion mewn bocsys, neu gwrw, lager neu seidr dathlu/coffa cenedlaethol.

- Ni chaiff y safle werthu unrhyw eitem y gellir yn rhesymol ddisgwyl ei defnyddio ar gyfer paratoi neu gymryd cyffuriau anghyfreithlon. Bydd hyn yn cynnwys llifianwyr; pibellau ac eitemau eraill a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfer cynhyrchion ysmygu, ac eithrio tybaco cyfreithlon neu gynhyrchion llysieuol; a chaniau ocsid nitrus.
- Defnyddir cynllun hyfforddi staff ar gyfer yr holl staff sydd ag awdurdod i werthu alcohol. Bydd yr hyfforddiant yn ymdrin â phwysigrwydd atal gwerthu dan oed a chydymffurfio ag amodau trwydded. Darperir hyfforddiant gloywi bob chwe mis, bydd cofnodion yn cael eu cadw, a byddant ar gael ar gais i weithiwr heddlu.
- Bydd pob gweithiwr yn wyliadwrus ac yn monitro'r ardal yn union y tu allan i'r siop yn rheolaidd i sicrhau nad yw pobl ifanc yn achosi annifyrrwch trwy ymgynnull a thaflu ysbwriel. Bydd y gweithwyr hyn yn casglu ysbwriel hyd at bellter o bum metr y tu allan i'r eiddo pan fo angen, yn ystod oriau agor ac ar ddiwedd busnes bob dydd. Bydd y gwiriad hwn yn cael ei ddogfennu a'i gofnodi am gyfnod o 12 mis y flwyddyn. Bydd ar gael ar gais i weithiwr heddlu.
- Bydd y safle yn gweithredu polisi Her 25. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddwyn i sylw cwsmeriaid drwy'r pwynt gwerthu, gan gynnwys defnyddio arwyddion priodol wedi'u harddangos mewn mannau amlwg yn y siop. Yr unig ffurf adnabod a gydnabyddir bydd cardiau adnabod ffotograffig megis trwydded yrru, pasbort, cardiau adnabod y Lluoedd Arfog, neu gardiau cynllun prawf oedran. Bydd pob aelod o staff parhaol yn cael yr hyfforddiant Her 25 priodol, ar ôl cwblhau o leiaf chwe wythnos ddi-dor o gyflogaeth. Ni fydd alcohol yn cael ei werthu i'r bobl hynny nad ydynt, os cânt eu herio, yn gallu dangos prawf adnabod addas.
- Bydd hysbysiadau yn cael eu harddangos yn y siop lle gellir eu gweld yn glir i hysbysu cwsmeriaid ei bod yn anghyfreithlon i bobl dan 18 oed brynu alcohol neu i unrhyw un brynu alcohol ar ran rhywun dan 18 oed.
- Rhaid i bob man arddangos alcohol fod â chaeadau. Bydd y caeadau yn cael eu cau ar ddiwedd yr oriau a ganiateir ar gyfer gwerthu alcohol, ac ni fyddant yn cael eu hagor eto tan ddechrau'r oriau a ganiateir ar y diwrnod canlynol.
- Dim ond i gyfeiriad post wedi'i ddilysu y bydd alcohol yn cael ei werthu i'w ddanfon; ni fydd alcohol yn cael ei ddanfon i fannau cyhoeddus. Enghreifftiau o fannau cyhoeddus o'r fath fyddai parciau, traethau, lleoliadau strydoedd, neu gaeau agored.
- Bydd deiliad trwydded y safle yn cadw cofrestr am gyfnod o ddim llai na 12 mis o ddyddiad y trafodiad ar gyfer gwerthu alcohol ar gyfer gwasanaeth danfon i'r cartref neu i'r gweithle, a fydd yn cael ei chadw yn y siop gan nodi'r canlynol:
    a) Swm yr alcohol a werthir
    b) Disgrifiad o'r alcohol a werthir
    c) Pris yr alcohol a werthir
    d) Enw a chyfeiriad y sawl sy'n gosod yr archeb
    e) Enw a chyfeiriad y sawl y mae'r danfoniad yn cael ei wneud iddo os yw'n wahanol i bwynt d) uchod
    f) Pob achos o wrthod gwerthu alcohol

g) Unrhyw ymweliad gan gynrychiolwyr awdurdod neu wasanaeth brys perthnasol

- Pan fydd alcohol yn cael ei ddanfon gan gludwr trydydd parti, bydd deiliad y drwydded yn nodi bod angen gwiriad oedran ar gyfer pob danfoniad alcohol. Bydd hyn yn cael ei wneud gan y cludwr trydydd parti sy'n gweithredu'r cynllun Her 25.
- Bydd pob pryniant ar gyfer danfon alcohol yn cael ei gwblhau'n electronig cyn anfon nwyddau. Ni fydd unrhyw arian parod ar werthiannau danfoniadau i gartref neu weithle.
- Bydd gan y wefan wiriwr oedran ar gyfer cael mynediad i'r wefan, ar gyfer nodi pob cynnyrch, ac ar y dudalen prynu/talu.

Cododd y Cynghorydd Norman gwestiwn ynghylch amod 12, yn ymwneud ag ardaloedd arddangos ar gyfer alcohol gyda chaeadau. Dywedodd J. Jones, o Heddlu De Cymru, yr awdurdod cyfrifol, fod hyn yn dal i gael ei drafod gyda'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd.

Yna, gwahoddodd y cadeirydd gynrychiolydd yr ymgeisydd, S. Kanapathi, o Arka Licensing, i gyflwyno ei achos. Dechreuodd drwy fynd i'r afael â'r amodau hynny na chytunwyd arnynt gyda'r awdurdod cyfrifol neu a oedd yn dal i gael eu trafod, megis amod 12 yn ymwneud ag angen caeadau ar gyfer ardaloedd arddangos alcohol. Nid oedd gosod y rhain yn ymarferol i'r ymgeisydd, a gynigiodd yn lle hynny roi rhybuddion o fewn y siop yn hysbysu cwsmeriaid o'r oriau a ganiateir ar gyfer gwerthu alcohol, ynghyd â gosod y til arian parod i beidio â chaniatáu gwerthu a phrosesu pryniannau o alcohol y tu allan i'r oriau rhagnodedig ar gyfer gwerthu alcohol. Ymhellach, roedd amod diwygiedig 13, yn ymwneud â gwerthu alcohol i'w ddanfon, wedi'i gytuno, o safbwynt peidio â danfon alcohol i fannau cyhoeddus. O ran amodau 14 a 15, roedd y rhain wedi'u cytuno, er bod amod 15 wedi'i ddiwygio, gan symud i ffwrdd o'r adeg pan oedd alcohol yn cael ei ddanfon gan gludwr trydydd parti y byddai deiliad y drwydded yn nodi bod angen llofnod oedolyn ar bob danfoniad, i'r adeg pan oedd alcohol yn cael ei ddanfon gan gludwr trydydd parti y byddai deiliad y drwydded yn nodi y byddai angen gwiriad oedran ar bob danfoniad alcohol. Cyfeiriwyd hefyd at amod 16, sef y byddai pob pryniant ar gyfer danfon alcohol yn cael ei gwblhau'n electronig cyn anfon nwyddau. Ni fydd unrhyw arian parod ar werthiannau danfoniadau i gartref neu weithle. Roedd yr ymgeisydd yn gwrthwynebu rhan o'r amod hwn, ynghylch atal defnyddio arian parod i brynu alcohol, oherwydd bod angen i gludwyr trydydd parti fel Deliveroo roi'r dewis i gwsmeriaid dalu â cherdyn neu arian parod, ac y gallai fod yn well gan y cwsmeriaid eu hunain dalu ag arian parod am wahanol resymau.

Dywedodd cynrychiolydd yr ymgeisydd, mewn ymateb i'r sylwadau a'r ddeiseb gyhoeddus yn erbyn trosi'r eiddo yn siop gyfleustra a ddyfynnwyd yn Atodiad C yr adroddiad, fod yr ymgeisydd wedi ystyried pryderon lleol trwy wneud pethau fel diwygio'r oriau gwerthu alcohol, cymryd camau i atal prynu ac yfed alcohol o'r siop mewn mannau cyhoeddus lleol, gwerthu diodydd sy'n cynnwys llai o alcohol, ac ati. Hefyd, ni ragwelwyd y byddai nifer sylweddol o ddanfoniadau alcohol trwy gludwyr trydydd parti. Yn olaf, roedd yr ymgeisydd yn breswylydd lleol ei hun, wedi gweithio ym maes manwerthu ers 10 mlynedd, a byddai'r siop gyfleustra hon o fudd i'r gymuned leol.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd yr eiddo dan sylw ar agor ac eglurwyd nad oedd yr eiddo ar agor ar hyn o bryd a'i fod yn cael ei adnewyddu ar hyn o bryd.

Yna gofynnodd y cadeirydd i gynrychiolydd Heddlu De Cymru, J. Jones (yr awdurdod cyfrifol), roi cyflwyniad gerbron y pwyllgor. Dywedodd, er bod y rhan fwyaf o'r amodau wedi'u cytuno gyda'r ymgeisydd, y prif bwynt lle'r oedd anghytuno oedd amod 16 ynghylch y defnydd o arian parod oherwydd y risgiau posibl i gludwyr/gyrwyr trydydd parti yn gorfod cario arian parod o'r fath, h.y. lladrad a dwyn, ac i sicrhau bod y cyfrifoldeb yn parhau gyda'r manwerthwr, yn ogystal â sicrhau mai oedolion yn unig a allai brynu alcohol. Gofynnodd a allai'r pwyllgor ystyried yr amod hwn a'i gadw yn ei le. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr amodau, ar ôl trafodaethau gyda'r ymgeisydd, wedi'u cytuno neu eu diwygio, megis lleihau'r oriau y mae alcohol ar werth yn yr eiddo, a bod yr heddlu bellach wedi cytuno i ddiwygio neu ddileu amod 12, oherwydd y mesurau eraill a grybwyllwyd gan yr ymgeisydd yn gynharach yn y cyfarfod.

O ran cwestiwn rheolwr y tîm trwyddedu ar eiriad amod 15, cadarnhaodd yr awdurdod cyfrifol y geiriad diwygiedig (yn unol â'r geiriad a amlinellwyd yn yr amodau uchod).

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson, unigolyn arall a chynghorydd yr ardal dan sylw, yng ngoleuni pryderon rhai trigolion lleol, ei bod yn bwysig cadarnhau, gan y byddai'r eiddo yn parhau i fod yn fusnes manwerthu (siop nwyddau trydanol ydoedd yn flaenorol), na fyddai angen cyfranogiad cynllunio, h.y. trwy gais 'newid defnydd'. Er ei bod yn gadarnhaol nodi bod yr oriau ar gyfer gwerthu alcohol wedi bod yn gyfyngedig, roedd pryderon o hyd o ran lleoliad y siop mewn ardal breswyl dawel ac o ran oriau agor cyffredinol y siop, a allai gyfrannu at gynnydd mewn sŵn, yn enwedig gyda'r nos.

Siaradodd K. Stevens, unigolyn arall, hefyd, gan adleisio pryderon y Cynghorydd Dr Johnson, gan ychwanegu, yn ogystal â mwy o sŵn, y gallai lleoliad y siop gyfleustra, gyda'i gwerthiant alcohol, annog ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrafferthion eraill mewn ardal breswyl dawel a heddychlon.

Yna gwahoddodd y cadeirydd bawb i grynhoi eu sylwadau neu wneud unrhyw bwyntiau ychwanegol, gyda chynrychiolydd yr ymgeisydd yn dweud bod yr ymgeisydd yn gwerthfawrogi'r pryderon a godwyd gan y bobl eraill yn y cyfarfod ac yn y sylwadau ysgrifenedig ac ati, a dyna pam yr oedd nifer o amodau wedi'u haddasu neu eu hychwanegu yn sgil trafodaethau gyda'r awdurdod cyfrifol. Fodd bynnag, o ran amod 16, heb gynnwys defnyddio arian parod i dalu am ddanfoniadau ar-lein, byddai hyn yn anymarferol, a disgwylir i ddanfoniadau o'r fath fod yn fach iawn hefyd.

Heb unrhyw bwyntiau na chwestiynau pellach i'w hegluro gan yr is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y byddai'r is-bwyllgor yn cynnal trafodaeth breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bawb a wnelo â'r mater o fewn pum diwrnod gwaith. Yn dilyn hyn, datgysylltodd yr ymgeisydd, ei gynrychiolydd, y swyddog trwyddedu, yr awdurdod cyfrifol, a'r bobl

eraill a oedd yn bresennol â’r gwrandawiad fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a bu’r Is-bwyllgor Trwyddedu yn trafod y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – Caniatáu’r cais, ynghyd â’r amodau y cytunwyd arnynt gan Heddlu De Cymru.

Rhesymau dros y penderfyniad

Ni fyddai amod rhif 16 yn cael ei gynnwys ar y drwydded, yn caniatáu i arian parod gael ei ddefnyddio ar gyfer danfoniadau.

Hefyd, ni fyddai unrhyw ofyniad i gaeadau gael eu defnyddio, yn hytrach byddai arwyddion a hysbysiad til sy'n atal gwerthu alcohol y tu allan i oriau a ganiateir yn cael eu defnyddio.

Wrth ddod i'r penderfyniad roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais ynghyd â phawb oedd wedi gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar. Roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried Deddf Trwyddedu 2003 fel y'i diwygiwyd, yn enwedig yr amcanion trwyddedu a Chanllawiau'r Swyddfa Gartref ynghyd â Datganiad o Bolisi Trwyddedu'r Cyngor.

Mae gan yr Ymgeisydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Rhaid i'r apêl gael ei gwneud yn ysgrifenedig ac o fewn 21 diwrnod i Lys Ynadon Caerdydd a Bro Morgannwg. Os bydd yr Ymgeisydd yn ansicr ynghylch ei hawliau cyfreithiol a'i gyfrifoldebau, dylai geisio cyngor cyfreithiol annibynnol